| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Tachwedd 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus/ Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Rheolwr yr Adain Rheoli Rhwydwaith a'r Rheolwr Priffyrdd Strategol** |
| **Teitl:** | **Fersiwn Ddrafft Rhaglen Gyfalaf Priffyrdd 2014/15 a chynnydd y strategaeth ddrafft** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Fersiwn ddrafft ddiweddaraf rhaglen gyfalaf priffyrdd 2014/15 a datblygiad y broses i gyflawni'r strategaeth a chynllun cyfalaf tair blynedd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Galluogi'r aelodau i drafod fersiwn ddiweddaraf Rhaglen Gyfalaf Cynnal a Chadw Priffyrdd 2014/15 o fewn yr amserlen angenrheidiol er mwyn cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru ei ystyried o dan Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.

Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd sy'n digwydd wrth ddatblygu'r Strategaeth a fersiwn ddrafft y Polisi Cynnal a Chadw Priffyrdd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

**3.1** Bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cytuno ar fersiwn ddrafft ddiweddaraf Rhaglen Gyfalaf Cynnal a Chadw Priffyrdd yn amodol ar newidiadau pellach a wneir gan Grwpiau Ardal yr Aelodau.

**3.2** Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys y ddogfen Polisi ac yn cytuno i adolygu allbwn y Gweithgor Strategaeth Priffyrdd sydd wedi ei drefnu ar gyfer mis Rhagfyr 2013.

## 4. Rhaglen Gyfalaf 2014/15

### 4.1 Y sefyllfa ddiweddaraf

Mae'r fersiwn ddiweddaraf wedi ei atodi yn Atodiad A, ond bydd ymgynghori ynglŷn â hyn yn digwydd gyda Grwpiau Ardal unigol yr Aelodau yn ystod y pedair wythnos nesaf.

Mae'r rhaglen wedi cael ei datblygu'n dilyn adolygiad helaeth o ddata sydd wedi ei gasglu drwy gynnal arolygon, drwy ymgynghori gyda'r swyddogion priffyrdd perthnasol a thrwy gael mewnbwn gan aelodau etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned.

Mae'r darn olaf o ddata, sef data Gwrthiant sgidio - Peiriant Archwilio Cyfernod Arferol Grym o'r Ochr (SCRIM) wedi dod i law yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd, a bydd y data wedi cael ei drosi gogyfer â'i adolygu a'i fewnbynnu i'r rhaglen cyn y bydd y Pwyllgor hwn yn cyfarfod.

### 4.2 Y Camau Nesaf

Yn dilyn adolygu'r data SCRIM caiff y rhaglen ddrafft ei thrafod yn Grwpiau Ardal yr Aelodau, naill ai mewn cyfarfodydd neu dros e-bost. Bydd allbwn y grwpiau'n cael ei ymgorffori.

Bydd swyddogion yn adolygu'r rhaglen derfynol ac yn penderfynu pa gynlluniau sy'n addas i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cynnwys yn y cais am arian gan Fenter Fenthyca Llywodraeth Leol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar gynlluniau ailwynebu mwy eu maint sy'n hawdd eu hadnabod gan eu bod yn ychwanegu 20 mlynedd at oes yr ased, sef un o brif amcanion y cyllid.

2014/15 fydd y flwyddyn olaf ar gyfer arian Menter Fenthyca Llywodraeth Leol a bydd Llywodraeth Cymru'n awyddus i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen waith hon dros dair blynedd.

Wedi i'r Cyngor gytuno ar y gyllideb gyfalaf yn ystod Chwefror 2014, bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei theilwra yn unol â swm terfynol y cyllid sydd ar gael a'i chyhoeddi. Cychwynnir ar y rhaglen ar unwaith.

Os bydd swm yr arian sydd ar gael yn amrywio oddi wrth yr hyn sydd wedi ei nodi ar hyn o bryd a bod angen amrywio'r rhaglen yn sylweddol yna trafodir hyn ymhellach gyda'r Aelodau cyn symud ymlaen.

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni gan yr Uned Waith o fewn yr Adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ac adroddir ynglŷn â chynnydd trwy Galendr Digwyddiadau'r Aelodau a thrwy anfon adroddiadau cynnydd at yr holl Aelodau.

## 5 Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd

### 5.1 Cynnydd hyd yma

Cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau fis Gorffennaf i sefydlu Gweithgor i edrych ar y mater hwn ac mae cynrychiolydd o bob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau bellach wedi cael eu cynnig. Sef:-

Y Cynghorwyr Merfyn Parry, Peter Evans, Bill Cowie, David Simmons, Huw Williams, Cefyn Williams

Mae'r Cynghorydd David Smith, yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, wedi cael ei wahodd i gadeirio'r grŵp.

Mae swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar gyflawni fersiwn ddrafft rhaglen gyfalaf 2014/15 y mae'n rhaid ei pharatoi a chytuno arni a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru o

fewn amserlenni tynn fel rhan o gyflwyniad a fydd yn cael ei werthuso'n llawn. Mae hyn wedi achosi oedi o ran gweld cynnydd yn natblygiad y Strategaeth.

**5.2 Y camau nesaf**

Cynigir cynnal cyfarfod cyntaf y Grŵp ar 3 Rhagfyr 2013.

Bydd drafft cyntaf ein dull gweithredu o ran cynllunio cylched oes, costio oes gyfan, rheoli data ac asesu risg yn cael ei gyflwyno i'r grŵp. Caiff canlyniad hyn ei ymgorffori mewn dogfen strategaeth ddrafft fer a ddylai fod ar gael yn gynnar iawn yn y flwyddyn newydd.

Mae dogfen Polisi Cynnal a Chadw eisoes mewn bodolaeth ar ffurf ddrafft a bydd yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod cyntaf y grŵp. Bydd hyn yn cefnogi ac yn llywio'r strategaeth.

Fel y cytunwyd gan y Pwyllgor hwn fis Gorffennaf 2013, rhagwelir y bydd y rhwydwaith cyfan yn cael ei flaenoriaethu yn ystod chwarter cyntaf 2014/15. Bydd y ddogfen hon yn dynodi sefyllfa bresennol pob rhan o'r briffordd a phob gwaith atgyweirio arfaethedig y mae angen ei wneud, a bydd amcangyfrif o'r costau.

Bydd y ddogfen hon, sydd wedi ei chefnogi gan fath o ddadansoddiad cost a budd o'r lefelau ariannu, yn ffurfio sail y cynnig a wneir i'r Grŵp Buddsoddi Strategol ar gyfer cyllid cyfalaf 2015/16.

**6 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Dynodir Gwella ein Ffyrdd fel blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol 2012-17.

**7 Faint fydd yn hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r Cyngor wedi nodi lefel debygol y buddsoddiad a wneir mewn ffyrdd yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd a'r ystyriaeth sydd wedi ei rhoi i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf yn hanfodol wrth wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r gwerth gorau o'r buddsoddiad hwn.

**8 Beth yw'r prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd i effaith y penderfyniad hwn ar gydraddoldeb?**

Mae'r gyfundrefn rheoli'r priffyrdd wedi'i dylunio er mwyn gwella diogelwch cyffredinol pob un sy'n defnyddio'r ffyrdd. Er mwyn cefnogi amcanion cydraddoldeb y cyngor mae'n bwysig bod hygyrchedd corfforol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn cael ei wella. Mae ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo gyda'r henoed a chyda phobl anabl wedi amlygu'r ffaith fod diffyg cyrbau isel yn broblem sy'n cael effaith anghymesur mewn perthynas â diogelwch a hygyrchedd ar gyfer pobl sydd ag amhariad corfforol gan gynnwys defnyddwyr sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn a bod diffyg palmentydd cyffyrddol ar gyfer pobl ag amhariad gweledol. Byddwn yn datblygu ac yn asesu effaith y rhaglen waith ar gydraddoldeb a

thrwy hynny yn dynodi ardaloedd i'w blaenoriaethu ar gyfer gosod cyrbau isel a byddwn yn parhau i ymgynghori.

## 9 Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Ymgynghorwyd â swyddogion sy'n ymwneud â chynnal a chadw'r priffyrdd.
Gofynnwyd i Aelodau Etholedig roi mewnbwn i'r broses a bydd hynny'n ffurfio rhan o'r broses adolygu trwy gyfrwng Grwpiau Ardal yr Aelodau.
Holwyd barn y Cynghorau Tref a Chymuned.

## 10 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae buddsoddi yn y priffyrdd wedi'i gynnwys fel blaenoriaeth corfforaethol ers sawl blwyddyn ac maent wedi eu cyllido yn unol â hynny. Mae'n fwriad yn y Cynllun Corfforaethol i barhau â hyn ac mae tybiaeth y bydd cyllid ar gael dros y blynyddoedd sydd i ddod.

## 11 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Gallai methu ystyried pob agwedd o gyflwr y briffordd yn ofalus wrth ddatblygu'r rhaglen gyfalaf arwain at fethu ymdrin â materion diogelwch. Mae'r risg honno'n cael ei lliniaru gan y broses a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r rhaglen a chan y ffaith fod Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd wedi cael ei datblygu.

Gallai bod yn hwyr wrth ddatblygu'r rhaglen gyfalaf achosi problemau ariannu gyda Llywodraeth Cymru a gallai achosi anawsterau o ran caffael hefyd. Mae'r risg yn cael ei lleihau trwy ein bod wedi datblygu'r rhaglen ac wedi cynnwys yr Aelodau'n gynnar.

Gallai diffyg buddsoddiad yn y Briffordd os yw hynny wedi ei ddynodi'n flaenoriaeth greu risg i enw da'r Awdurdod. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn dynodi cyllid i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

## 12 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Priffyrdd 1980

Mae erthyglau 6.3.3 a 6.3.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgorau Archwilio mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu hystyried yn yr adroddiad hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr yr Adain Rheoli Rhwydwaith
Ffôn: 01824 706875